***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 1290 (Cy. 228)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Tachwedd 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn(**1**) drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 45AA(6), (7), (10) ac (11) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**2**), adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999(**3**) ("Deddf 1999") ac adrannau 36(2), 39, 42, 45 a 52 i 55 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008(**4**) ("Deddf 2008").

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori yn unol ag adran 2(4) o Ddeddf 1999 ac adrannau 59(3) a 60 o Ddeddf 2008(**5**).

Yn unol ag adran 66 o Ddeddf 2008 mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru (sef y rheoleiddiwr at ddiben y Rheoliadau hyn) yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion y cyfeirir atynt yn adran 5(2) o'r Ddeddf honno wrth arfer pŵer a roddir gan y Rheoliadau hyn.

Yn unol ag adran 160A(2) a (5) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**6**), adran 2(8) o Ddeddf 1999(**7**) ac adran 61(2) o Ddeddf 2008(**8**), gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

---

(**1**) Caniateir arfer y pŵer i wneud gorchmynion o dan Ran 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (p. 13) er mwyn gwneud rheoliadau yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

(**2**) 1990 p. 43. Mewnosodwyd adran 45AA gan adran 65 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3).

(**3**) 1999 p. 24. Diwygiwyd adran 2 gan O.S. 2013/755 (Cy. 90); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac eithrio mewn perthynas â chwilio am olew a nwy alltraeth ac elwa arnynt, yn rhinwedd erthygl 3(1) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2005 (O.S. 2005/1958). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**4**) 2008 p. 13. Diwygiwyd adran 36(2) gan adran 21(2)(f) o Ddeddf Menter 2016 (p. 12); diwygiwyd adrannau 39 a 42 gan baragraff 12 o Atodlen 5 i O.S. 2015/664. Diffinnir "prescribed" yn adran 71(1) o Ddeddf 2008.

(**5**) Mae adran 71(1) o Ddeddf 2008 yn darparu mai ystyr "relevant authority", mewn perthynas â darpariaeth a wneir o dan Ran 3 neu yn rhinwedd y Rhan honno gan Weinidogion Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(**6**) Mewnosodwyd adran 160A gan adran 63(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 (p. 30).

(**7**) Mae'r cyfeiriad yn adran 2(8) o Ddeddf 1999 at gymeradwyaeth dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig yn cael effaith mewn perthynas ag arfer swyddogaethau gan Weinidogion Cymru fel pe bai'n gyfeiriad at gymeradwyaeth Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 33 o Atodlen 11 iddi.

(**8**) Mae'r cyfeiriad yn adran 61(2) o Ddeddf 2008 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.